# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 5ed o Mai 2015
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Ann Tudor (Cadeirydd), Rowland Jones, Dewi Rattray, Meirion Davies, Meic Francis, Dylan Edwards a John Davies.**

**YMDDIHEURIADAU: Cynhorwyr:- Caredig Jones, Ada Evans; Richard Davies.**

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch a chroesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd newydd. Diolchodd y Cyng.Ann Tudor i'r Cyng.Dewi Rattray am ei waith fel Cadeirydd dros y flwyddyn ddiwethaf, a hefyd am bopeth a wnaeth dros y gymuned tu allan i'w rhôl fel Cadeirydd. Aeth diolch i Eirys Davies am ei waith fel Clerc, nid dim ond dros y flwyddyn ddiwethaf ond trwy gydol ei swydd fel Clerc. Gan nad oedd Eirys yn bresennol yn ystod y cyfarfod yma fe benderfynwyd y bydd yn ddymunol i ofyn Eirys i'r cyfarfod nesaf, er mwyn ddweud diolch. Croesawyd Angharad Carr fel y Clerc newydd.

**15/844**
Darllenwyd cofnodion y cyfarfod Miss Ebrill a phasiwyd eu bod yn gywir. Cynigiwyd gan y Cyng.Dylan Edwards ac fe eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis.

**15/845**
**MATERION YN CODI**

1. Roddodd y Cyng.Ann Tudor gwybod fod yna newid i ddyddiad noson Torri'r Fynwent. Y dyddiad newydd fydd y 12fed o Fai (sef nos Mawrth Nesaf) am 6y.h. Mae yna hysbyseb am y noson yn Y Ddolen a hefyd posteri wedi ei gosod o amgylch y pentref.
2. Gofynnwyd a oedd unrhyw sôn pryd oedd Mr Dan Owens yn bwriadu dod i dorri glaswellt y fynwent. Phasiwyd i'r Clerc dod yn gysylltiad gydag i weld os oes unrhyw fodd eu gwneud cyn y 12fed.
3. Dwedodd y Clerc fod hi wedi derbyn e-bost oddi wrth Glan Davies, yn nodi dyddiad am hyfforddiant ar y Defriballators. Yn anffodus, nid yw'r Neuadd ar gael ar y dyddiad a chynigwyd sef 16 Mehefin. Phasiwyd i'r Clerc cysylltu gyda Glan i geisio trefnu dyddiad arall.
4. Darllenwyd ymateb o'r Cyngor Sir i lythyr Mr Derek Baskerville ar ôl y cyfarfod yn Llanafan. Yn anffodus, nid oedd unrhyw newid i'r sefyllfa ar hyn o'r bryd ac nid oedd unrhyw ddyddiad wedi ei phenodi am gyfarfod arall.

**15/846**
**LLYTHYRON**

1. Fe waeth y Cyng.Meic Francis son am cynnwys e-bost a derbynwyd oddiwrth Un Llais Cymru, megys Wythnos Arfordur Glan, Ymateb Un Llais Cymru i'r Papur Gwyn, ac Hyfforddiant Un Llais Cymru (a oedd yn cael eu cynnal yn Llanelli).
2. E-bost wrth y Llywodraeth Leol yn hysbysebu newidiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2013. Dywedodd yr e-bost fydd gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth yn electronig yn ychwanegol at y gofynion cyhoeddi presennol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth benodol am eu cyfarfodydd a'u trafodion a.y.y.b.
3. E-bost oddiwrth 'Un Llais Cymru' ynglyn a 'Nac Anghofiwn'; yn annog cymunedau i wneud cais am grant i ddiogelu eu cofeb ryfel.
4. Llythyr wrth Gyngor Sir Ceredigion ynglŷn â Safoni Enwau Lleoedd. Fe wnaeth cadarnhau fod y Cyngor Sir wedi derbyn gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned Llanilar am newid enw Abermad i Aber-mad, gan fod

wedi cael eu nodi yn 'goch' ar enwau lleoedd yng Ngheredigion. Penderfynodd bydd yn syniad i anfon ymateb arall i bwysleisio fod yn wrthwynebiad gwreiddiol yn sefyll.

5. Llythyr oddiwrth Cyngor Sir Ceredigon ynglyn a dargyfeiriad i Llwybyr Ceffylau 21/89 Tynllain, Tynygraig / Llwybr Troed 21/90, Tynygraig.
6. Llythr Oddiwrth Ombwdsmon – Cyfarwyddyd Diwygiedig ar y Cod Ymddygiad.
7. Gwybodaeth gyffredinol oddi wrth Cyngor Sir Ceredigion, ynglŷn ac Ailddosbarthuu Llwybrau Ceffylau.
8. Llythyr oddi wrth GIG Cymru wedi eu penodi; Sgwrs Iach, a'r bwriad i wellau gwasanaethau. Poster i fynd i fynnu yn y Neuadd.
9. Diolchiadau oddi wrth: CFFI Ceredigion am y rhodd o £100 a dderbyniwyd oddiwrth y Cyngor Cymuned, Gwmni Theatr Cydweithredol Troedrhiw am y rhodd o £50, Cruse Bereavement Care am y rhodd o £50 ac Cyngor am Bopeth Ceredigion, eto am y rhodd o £50.

**15/847**

**ARIANNOL**

1. Infois oddiwrth Aeron Computer Services as £60.00 sef tal am atgyweiriadau i gyfrifiadur y Cyngor. Cynigiwyd i'w thalu gan y Cyng.Dewi Rattray ac eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis. Phaswid i'w dalu.
2. Infois oddiwrth Y Clerc am £74.99, sef y gost am yr argraffydd newydd wedi eu prynu o 'Curry's/PC World'. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng. John Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Dylan Edwards.
3. Dogfennau i adnewyddu Yswiriant, ar gost o £914.06. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Mr Neville Jones edrych dros y manylion eleni eto cyn anfon taliad. Bydd hefyd angen newid y cyfeiriad. Cynigiwyd i'w dalu gan y Cyng.Roland Jones ac eiliwyd gan y Cyng.Dewi Rattray. Roedd y pwyllgor i gyd yn gyntun.
4. Proffil Swydd Y Clerc – Fe arwyddwyd hyn gan Y Cadeirydd a'r Clerc.

**15/848**

**CYNLLUNIO**

1. Cais A150133 – Lluest Newydd, Lledrod, Aberystwyth.
   Newidiadau i fynediad a ffin y wal. Ni godwyd unrhyw wrthwynebiadau. Cynigiwyd i'w gefnogi gan y Cyng. John Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies. Llythyr yn hysbysu hyn i gael eu hanfon I Cyngor Sir Ceredigion.

2. Cais A150133 – Bryn Derw, Cwrt Y Cadno, Llanilar.
   Erection of an Extension. Ni godwyd unrhyw wrthwynebiadau. Cynigiwyd i'w gefnogi gan y Cyng. John Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies. Llythyr yn hysbysu hyn i gael eu hanfon i Cyngor Sir Ceredigion.

   Gwnaeth y Cyng.Rowland Jones ddatgan diddordeb ac ni wnaeth gymeryd rhan yn y drafodaeth.

**15/849**

**UNRHYW FATER ARALL**

1. Tynnwyd sylw gan y Cyng.Ann Tudor bod rhywfaint o ddryswch ynghylch blychau post y pentref. Roedd pobl y gymuned o dan yr argraff mae'r blwch post wedi lleoli yng nghanol y pentref ar bwys y Siop oedd prif Flwch post y pentref, ond mae'n ymddangos nad yw hyn yn wir. Gofynnwyd i'r glec cysylltu â'r swyddfa bost i weld os oedd modd diwygio hyn.

Gorffenwyd y cyfarfod am 8.50y.h